PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

YSTAFELL GYFARFOD MATH, PENCADLYS Y GWASANAETH

28 CHWEFROR 2014 AM 10:00 AWR

Presennol:

Y Cynghorydd R Llewellyn (Cadeirydd)
Y Cynghorydd W Evans
Y Cynghorydd P James
Y Cynghorydd A Lewis
Y Cynghorydd G Thomas
Mr Dave Daycock, Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod
Mr Mark Miles, Pennaeth Adnoddau Dynol
Mrs Allison Cook, Veale Wasbrough Vizards

Presennol ar gyfer rhan o eitem 1 ar yr Agenda yn unig

Mr Richard Smith, Prif Swyddog Tân (PST)

Presennol ar gyfer eitem 8 ar yr Agenda yn unig

Mr Steven Flather, Pennaeth Cyllid
Mr Stephen McNamara, Veale Wasbrough Vizards

1. **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

   Dim.

2. **Datganiad gan Aelodau o unrhyw Fuddiannau Personol a/neu Sy'n Rhagfarnu**

   Fe wnaeth yr Aelodau ddatgan buddiant mewn perthynas â'u haelodaeth o'u Hawdurdodau Cyfansoddol.

3. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd / Materion Personol**

   Dim.

4. **Eithrio'r Cyhoedd**

   Penderfynodd yr Aelodau i eithrio'r cyhoedd ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei ddatgelu, yn unol â pharagraff 12 o Ran 12(A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

5. **Cofnodion y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol – 21 Hydref 2013**

   Cymeradwywyd y cofnodion.

6. I ystyried adroddiad ar y trefniadau ar gyfer y broses adolygu cyflogau teirblwydd

6.1 Ystyriodd yr Aelodau p'un ai dylid comisiynu'r adolygiad teirblwydd o Gydnabyddiaeth Ariannol y Prif Swyddogion ar gyfer 2014, yng ngoleuni'r sialensiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod ar hyn o bryd.

PENDERFYNIAD

Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r adolygiad am 12 mis, yng ngoleuni'r sefyllfa ariannol bresennol.

6.2 Ystyriodd yr Aelodau gais am godiad cyflog ôl-weithredol o 1% i Brif Swyddogion ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013/14.

PENDERFYNIAD

Penderfynodd y Pwyllgor i beidio â rhoi codiad cyflog ôl-weithredol o 1% i'r Prif Swyddogion, oherwydd yr hinsawdd ariannol a'r sialensiau sy'n wynebu'r Awdurdod ar hyn o bryd.

7 I ystyried adroddiad ar gyfranogiad Uwch Swyddogion mewn argyfyngau.

Ystyriodd yr Aelodau gais bod Swyddogion Gweithredol a Pholisi, a fu ymglymedig â'r trefniadau wrth gefn yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol, yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol am hynny.

PENDERFYNIAD

Cytunodd y Pwyllgor i beidio â rhoi taliad ychwanegol, oherwydd ystyrir bod y gweithgareddau yma'n rhan o ddyletswyddau'r Swyddogion.

8 I ystyried a thrafod y strwythur rheoli, yn cynnwys blaengynllunio.

Ystyriodd yr Aelodau adroddiad llafar ar y strwythur rheoli a chynllunio yn y dyfodol.

PENDERFYNIAD

Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn adroddiad manwl yng nghyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ar y 13eg o Fawrth 2014, i ystyried y mater ymhellach, yng ngoleuni'r cynigion i ailstrwythuro.

9 Unrhyw eitemau arall o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys yn unol ag Adran 100(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Dim.